Datblygu, cymhwyso a monitro rheoli heintiau mewn milfeddygfa

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu, cymhwyso a monitro rheoli heintiau yn y filfeddygfa. Mae hyn yn cynnwys y safonau sy'n ofynnol ar gyfer rheoli ataliaeth risg mewn milfeddygfa, trwy ddefnyddio'r dulliau rheoli heintiau priodol.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer nyrsys milfeddygol cofrestredig.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. datblygu'r strategaethau rheoli heintiau perthnasol ar gyfer ardaloedd gwahanol o'r filfeddygfa
2. cymhwyso a monitro'r strategaethau rheoli heintiau perthnasol ar gyfer ardaloedd gwahanol o'r filfeddygfa
3. asesu'r risg i iechyd a diogelwch o ran eich hun a chydweithwyr sydd yn gysylltiedig â chymhwyso gweithdrefnau rheoli heintiau gwahanol yn y filfeddygfa
4. asesu'r risg o wneud eich hun a chydweithwyr yn agored i ficro-organebau heintus, cyn, yn ystod ac ar ôl pob gweithgaredd y byddwch yn ei wneud
5. dewis a defnyddio'r dull gofynnol ar gyfer dadhalogi, diheintio neu sterileiddio'r filfeddygfa
6. dewis a defnyddio'r dull gofynnol o hylendid dwylo
7. dewis a defnyddio dillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) addas
8. cyflawni a monitro gweithdrefnau rheoli heintiau gwahanol ymarfer milfeddygol
9. adnabod a hysbysu pawb sydd yn gysylltiedig â rheoli heintiau, neu wedi eu heffeithio gan hyn, ynghylch unrhyw beryglon, problemau neu dystiolaeth o gyflyrau a allai fod yn heintus
10. cymhwyso nyrsio rhwystrol neu dechnegau ynysu perthnasol wrth ofalu am gleifion milfeddygol
11. rhoi cyngor i gleientiaid am y risg o heintio a sut i'w leihau
12. adrodd ynghylch unrhyw gyflyrau iechyd personol a allai gynyddu'r risg o drosglwyddo clefydau i chi eich hun a chydweithwyr
13. cwblhau cofnodion yn unol â gweithdrefnau'r filfeddygfa
14. gwaredu deunyddiau gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r weithdrefn ymarfer milfeddygol
15. cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid perthnasol
16. gwneud yr holl waith yn unol â deddfwriaethau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer neu bolisïau busnes

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
pwysigrwydd datblygu strategaethau rheoli heintiau perthnasol ar gyfer ardaloedd gwahanol y filfeddygfa
2.
y mathau a’r defnydd o dechnegau dadhalogi, diheintio a sterileiddio a ddefnyddir i fonitro rheoli heintiau mewn milfeddygfa
3.
y protocolau hylendid perthnasol ar gyfer ardaloedd gwahanol y filfeddygfa i leihau lledaenu heintiau a halogi
4.
y mathau gwahanol o hylendid dwylo a’r arfer gorau presennol
5.
y mathau a’r defnydd o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) sy’n ofynnol ar gyfer rheoli heintiau yn yr ardaloedd gwahanol o’r filfeddygfa
6.
sut i gymhwyso, monitro a chynnal nyrsio rhwystrol neu dechnegau ynysu mewn milfeddygfa
7.
yr ystod o gyflyrau meddygol neu weithdrefnau llawfeddygol a allai fod angen nyrsio rhwystrol neu dechnegau ynysu mewn milfeddygfa
8.
polisïau’r filfeddygfa ar gyfer cael mynediad i ardaloedd gwahanol o’r filfeddygfa, yn cynnwys rhannu ardaloedd a rhwystrau amddiffynnol
9.
y defnydd o raglenni gwyliadwriaeth milfeddygfa wrth fonitro rheoli heintiau mewn amgylchedd milfeddygol
10.
y cyngor y dylid ei roi i gleientiaid i leihau’r risg o heintiau gyda’u hanifeiliaid
11.
y camau y dylid eu cymryd cyn, yn ystod ac ar ôl gweithdrefn filfeddygol i leihau’r risg o gyswllt â chyfryngau heintus a thrawshalogi
12.

egwyddorion meddygol ac achosion heintio, traws-heintio, trosglwyddo a chytrefu
13.
egwyddorion meddygol ac amgylcheddol bioddiogelwch mewn milfeddygfa
14.
ystyr ac arwyddocâd y termau “pathogenaidd”, “amhathogenaidd”, “milheintiol”, “hysbysadwy”, “heintiol” a “heintus”
15.
y risg milheintiol i chi eich hun, cydweithwyr, cleientiaid a’r cyhoedd ehangach
16.
pam y mae’n bwysig hysbysu ynghylch unrhyw gyflyrau iechyd personol a allai gynyddu’r risg o drosglwyddo clefydau i chi eich hun ac eraill
17.
pwysigrwydd cwblhau cofnodion i gynorthwyo’r gwaith o reoli heintiau mewn milfeddygfa
18.
y ffynonellau gwybodaeth am reoli heintiau a ble i ddod o hyd iddynt
19.
sut i arwahanu a gwaredu’r categorïau gwahanol o wastraff a gynhyrchir mewn milfeddygfa
20.
y rheoliadau perthnasol yn ymwneud â thrin a storio sylweddau a allai fod yn beryglus
21.
eich cyfrifoldeb yn unol â deddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid, deddfwriaethau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau busnes

## Geirfa

Cyflyrau iechyd personol:

yn cynnwys gwrthimiwnedd ac alergeddau, tarwden, MRSA, milhaint

LANRVN1

Datblygu, cymhwyso a monitro rheoli heintiau mewn milfeddygfa

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANRVN3 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Nyrs milfeddygol |
| **Cyfres/Set** | Nyrsio Deintyddol, Nyrsio Milfeddygol a Gwasanaethau Ategol |
| **Geiriau Allweddol** | rheoli heintiau; amgylcheddau clinigol |